Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Y Pafiliynau**
**Parc Cambrian**
**Cwm Clydach**
**Tonypandy**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF40 2XX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae gan Rhondda Cynon Taf gyfanswm o 38,497 o ddisgyblion ar draws 115 o ysgolion, sy’n cynnwys 17 ysgol cyfrwng Cymraeg, 96 ysgol cyfrwng Saesneg a dwy ysgol ffrwd ddeuol.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 24.0% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 23%.

Roedd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Mawrth 2012, a chynhaliwyd ymweliadau dilynol ym mis Rhagfyr 2013, mis Mawrth 2014 a mis Mehefin 2014.

Yn 2022-23, cyllideb addysg yr awdurdod lleol yw £269,729,000. Y gyllideb ddirprwyedig i ysgolion fesul disgybl yn 2022-23 yw £4,925, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef £5,032.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o’r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf wedi’i nodi isod:

- Mae 6.2% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed o leiafrifoedd ethnig, sy’n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.3%.
- Mae gan 0.9% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol).
- Mae gan 1.7% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 3.4% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Datganiad).
- Mae gan 0.2% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae 1.4% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B neu C).
- Mae 16.1% o ddisgyblion 5 oed neu’n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 15.6%.

## Crynodeb

Mae arweinwyr yng ngwasanaethau addysg Rhondda Cynon Taf yn cynnig arweinyddiaeth glir a phwrpasol. Maent wedi'u hymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu gorau oll. Mae'r arweinydd, y prif weithredwr, yr aelod cabinet dros addysg, aelodau etholedig ac uwch aelodau staff yn y gyfarwyddiaeth addysg wedi pennu disgwyliadau uchel ar gyfer eu swyddogion, eu hysgolion a darparwyr. Mae gan yr holl swyddogion ddealltwriaeth glir o'u rolau a chyfrifoldebau a chânt eu grymuso i gymryd camau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i wella deilliannau i blant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod.

Mae arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn gwneud eu penderfyniadau'n ofalus, yn seiliedig ar y ffordd orau i wasanaethu eu cymunedau gwahanol a bodloni anghenion unigol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth yn effeithiol wrth ystyried ad-drefnu a chynllunio ysgolion. Mae hyn yn golygu bod cynigion trefniadaeth ysgolion yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion cymuned yr ysgol ac yn hyrwyddo darpariaeth deg i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae gwella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, er enghraifft trwy gyfleoedd trochi hwyr, darpariaeth arbenigol anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gwella deilliannau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yng nghamau cynnar ei ddatblygu.

Yn gyffredinol, bu canlyniadau arolygiadau yn gadarn yn yr awdurdod lleol dros amser. Ers i ni ailddechrau arolygu ym mis Chwefror 2022, rydym wedi gofyn i dair ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos o arfer dda, mae angen mesurau arbennig ar un ysgol gynradd a rhoddwyd un ysgol gynradd arall yn y categori adolygu gan Estyn.

Mae'r cyfarwyddwr a'i huwch dîm yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth a Chonsortiwm Canolbarth y De (CCD), sef y gwasanaeth gwella ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn rhannu'n eglur ei ddisgwyliadau ar gyfer gwaith y consortiwm rhanbarthol. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn glir ynghylch sut dylai CCD gefnogi ei flaenoriaethau strategol ac mae'n cyfarwyddo partneriaid gwella i gasglu'r dystiolaeth uniongyrchol sydd ei hangen ar yr awdurdod lleol. At ei gilydd, mae ansawdd y cymorth a'r wybodaeth a ddarperir gan CCD yn rhy amrywiol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi ei blant a phobl ifanc fwyaf bregus i wella eu deilliannau, eu lles a'u cyfleoedd bywyd, ac mae'n cynnig cymorth defnyddiol i ysgolion i wella presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion hyn. Dros gyfnod, bu presenoldeb disgyblion yn Rhondda Cynon Taf yn is na'r ffigurau cenedlaethol ac mae presenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi parhau'n isel.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnig cymorth arbennig o ddefnyddiol i'w ysgolion a lleoliadau i baratoi ar gyfer diwygio ADY. Mae staff wedi elwa ar amrywiaeth eang o ddysgu proffesiynol i wella eu dealltwriaeth o sut i nodi anghenion unigol. Un cryfder arbennig fu'r ffordd y cefnogwyd staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau datblygu unigol. At ei gilydd, mae cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gryf.

Ar draws y gyfarwyddiaeth, mae uwch swyddogion a’u staff wedi ymrwymo i wella’r gwasanaeth a ddarparant yn barhaus. Maent yn ymdrechu i nodi a chefnogi arweinwyr y dyfodol ac yn cynnig rhaglen dysgu proffesiynol ddefnyddiol iawn o ddatblygu arweinyddiaeth. Un cryfder nodedig yw’r ffordd y mae hyn wedi cefnogi cynllunio olyniaeth a gwelliannau mewn arweinyddiaeth ar draws yr awdurdod lleol a’i ysgolion. Mae’r cyfarwyddwr a’i huwch dîm wedi datblygu rhaglen glir ar gyfer gwerthuso a gwella, sy’n cynorthwyo’r holl swyddogion i fod â throsolwg addas o’i meysydd cyfrifoldeb. Serch hynny, yn aml, mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn brin o fanylion. Yn benodol, nid yw swyddogion yn nodi dangosyddion clir o lwyddiant bob tro ac mae hyn yn rhwystro eu gallu i werthuso eu gwaith yn fanwl a chynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn y gyfarwyddiaeth yn cefnogi staff yn dda iawn. Un cryfder arbennig yw’r ffordd y maent yn rhoi ymreolaeth i swyddogion wneud penderfyniadau am y ffordd orau i gefnogi ysgolion a lleoliadau. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt wybodaeth drwyadl am gyfeiriad yr awdurdod lleol a’i weledigaeth ar gyfer gwella. Dros gyfnod, mae hyn wedi cefnogi’r awdurdod lleol yn effeithiol i wella’r gwasanaethau maent eu darparu yn gynyddrannol.

## Argymhellion

A1 Miniogi ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A2 Cryfhau ymagweddau at addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy wella mynediad a chefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a darparu cyfleoedd trochi hwyr i ddysgwyr

A3 Cydweithio'n agos ag ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a'r consortiwm rhanbarthol i adeiladu ar waith yr awdurdod lleol i wella presenoldeb ymhellach a lleihau gwaharddiadau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â defnyddio data i lywio cynllunio a phenderfyniadau a'i ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a arweiniodd at atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd oherwydd y diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod, gan i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau ac effeithio ar y rhan fwyaf o ddata arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn cynnig cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, arolygom 44 o ysgolion a dwy UCD. Barnom fod safonau'n dda mewn 26 ysgol gynradd ac yn ddigonol mewn deg ysgol gynradd. Rhoddwyd chwech o'r ysgolion hyn yn y categori adolygu gan Estyn, un yn y categori gwelliant sylweddol a barnwyd bod angen mesurau arbennig ar un ohonynt. O'r ddwy ysgol pob oed, barnom fod safonau'n dda mewn un ohonynt ac yn anfoddhaol yn y llall a bod angen gwelliant sylweddol arni. Mewn ysgolion uwchradd, barnom fod safonau'n rhagorol yn un ohonynt, yn dda mewn tair ohonynt ac yn ddigonol mewn dwy ohonynt. Rhoddwyd un o'r rhain yn y categori adolygu gan Estyn a'r llall yn y categori gwelliant sylweddol. Barnom hefyd fod gan un UCD safonau rhagorol a bod gan y llall safonau anfoddhaol, a rhoddwyd yr UCD hon yn y categori mesurau arbennig. Erbyn hyn, mae'r holl ysgolion a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol yn ystod y cyfnod hwn wedi'u tynnu.

Ers ailddechrau arolygu ym mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu deuddeg ysgol gynradd ac un ysgol pob oed. Gofynnom i dair ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos o arfer dda, ond mae angen mesurau arbennig ar un ysgol gynradd a rhoddwyd ysgol gynradd arall yn y categori adolygu gan Estyn.

Roedd safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn gyffredinol unol â'r cyfartaleddau cenedlaethol, er bod deilliannau mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd yn amrywiol yn ystod y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, roedd deilliannau i'r disgyblion hynny'n sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y tair blynedd cyn y pandemig islaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Dros gyfnod, bu deilliannau arolygiadau o leoliadau meithrin nas cynhelir yn gadarn, ar y cyfan, wrth ystyried cynnydd a lles disgyblion.

Mae deilliannau o adroddiadau arolygu Estyn rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020 yn dangos bod lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda neu'n rhagorol mewn llawer o ysgolion. Roedd y gyfran hon ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Rhwng 2017 a 2019, dirywiodd presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ar y cyfan. Mewn pump o'r 13 ysgol uwchradd, roedd presenoldeb islaw'r disgwyliadau am dair blynedd. Mewn ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd

absenoldebau parhaus ar gyfradd uwch nag yn genedlaethol. Parhaodd y gyfradd absenoldebau parhaus mewn ysgolion cynradd yn gyffredinol unol â'r ffigurau cenedlaethol. Roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'u cyfoedion ac, mewn ysgolion cynradd, roedd o leiaf cystal â chyfartaledd Cymru, ond roedd islaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion uwchradd.

Dros y cyfnod o 2017 hyd 2019, roedd cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn gyffredinol unol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cynnydd yng nghyfradd y gwaharddiadau am gyfnod penodol o bum niwrnod neu lai dros yr un cyfnod a pharhaodd y gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Bu nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn gyffredinol unol â chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

Mae pobl ifanc yn cyfranogi'n gadarnhaol ac yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth wrth gynllunio digwyddiadau fel 'Pride Aberdâr'. Mae hyn yn dangos ymrwymiad cryf y bobl ifanc hyn i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled eu cymuned.

Mae pobl ifanc yn manteisio ar ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i helpu â'u hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol. Er enghraifft, dros y tair blynedd diwethaf, dangosodd nifer fawr o bobl ifanc welliant yn eu lefelau lles ar ôl sesiynau cwnsela.

Trwy'r Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Pobl Ifanc (YEPS), mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar newid cadarnhaol yn eu cymuned leol. Er enghraifft, buont yn rhan bwysig o greu meinciau digidol, sy'n cynnig mannau diogel lle gall pobl ifanc gymdeithasu â'u cyfoedion. Mae'r bobl ifanc sy'n cyfrannu at ddatblygu'r ddarpariaeth hon wedi elwa ar gyfleoedd i wella eu medrau cyfathrebu, cynllunio ac ymarferol.

**Enghraifft o waith Ymgysylltiad a Chyfranogiad Pobl Ifanc**

Fel rhan o'u gwaith i ailymgysylltu â phobl ifanc a fu'n wrthgymdeithasol yn eu cymuned leol, mae'r gwasanaeth YEPS wedi cydweithio â phobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol i ddatblygu meinciau digidol mewn cymunedau lleol. Mae'r meinciau hyn yn cynnig lle i bobl ifanc gymdeithasu, gwefru eu ffonau symudol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r bobl ifanc sy'n rhan o'r rhaglen hon wedi datblygu medrau newydd a chawsant eu helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion a'u cyfoedion.

Mae fideo am y meinciau digidol hyn i'w weld yma
**https://youtu.be/rj4snCKJ5OQ**

Mae nifer fawr o bobl ifanc hefyd yn elwa ar gymorth un-i-un a darpariaeth clwb ieuenctid a ddarperir gan YEPS, sy'n eu helpu i wella eu gwydnwch, eu lles a'u hiechyd meddwl.

## Gwasanaethau addysg

### Pa mor effeithiol yw'r her, cymorth ac ymyrraeth o ran gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion ac UCDau?

Yn ystod pandemig COVID-19 a'r cyfnod adfer dilynol, darparodd yr awdurdod lleol gymorth arbennig o gryf i'w ysgolion a'i UCDau. Cryfhaodd ei berthynas a chyfathrebu ag arweinwyr ysgolion yn sylweddol hefyd. Pan roedd yn ddiogel gwneud hynny, ymwelodd swyddogion ag ysgolion ac UCDau yn rheolaidd a galluogodd hyn iddynt ddatblygu dealltwriaeth ddwys o gyd-destunau penodol darparwyr a'r heriau roeddent yn eu hwynebu. Yn bwysig, cyfrannodd y profiadau uniongyrchol hyn hefyd at waith parhaus yr awdurdod lleol i fireinio casglu gwybodaeth i gefnogi gwella ysgolion yn effeithiol.

Mae gan yr awdurdod lleol systemau data effeithiol iawn i gipio gwybodaeth am ysgolion ac UCDau ar draws meysydd gwasanaeth gwahanol, fel cyllid ac adnoddau dynol. Hefyd, mae swyddogion wedi sefydlu sawl fforwm defnyddiol, fel yr 'Adolygiad Cynnydd Pob Ysgol', lle caiff y data hwn ei ddefnyddio i gefnogi trafodaethau gwelliant â ffocws am ysgolion ac UCDau. Mae'r wybodaeth yn helpu i ddatblygu gwybodaeth yr awdurdod lleol am ei ysgolion ac UCDau, gan alluogi swyddogion i nodi materion sy'n dod i'r amlwg, fel breuder mewn arweinyddiaeth, er mwyn cynnig ymyrraeth.

Mae gweithdrefnau addas i fonitro a chefnogi ysgolion ac UCDau, gan gynnwys prosesau cadarn i adolygu'r rhai sy'n peri pryder. Mae'r awdurdod lleol yn olrhain cynnydd yr ysgolion a'r UCDau hyn yn drylwyr. Mae'n defnyddio ei bwerau statudol yn ddoeth, fel cyhoeddi hysbysiadau cyn-rhybudd, i fynd i'r afael â materion perfformiad brys mewn ysgolion.

Mae partneriaeth waith sefydledig rhwng yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r awdurdod lleol yn cyfleu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion yn eglur, fel yr amlinellir yn ei gynllun strategol addysg cyfredol. Mae uwch arweinwyr a swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol â'r consortiwm rhanbarthol i deilwra systemau a phrosesau i anghenion yr awdurdod lleol. Er enghraifft, maent yn rhoi adborth manwl ar addasrwydd prosesau adrodd i rannu gwybodaeth am y cymorth a'r her y mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn eu cynnig i bob ysgol ac UCD. O ganlyniad, mae gofynion penodol erbyn hyn i bartneriaid gwella adrodd ar effeithiolrwydd prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol neu UCD, yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth.

Dros gyfnod, mae uwch arweinwyr a swyddogion wedi darparu her gadarn ac amserol yn ymwneud ag ansawdd cymorth y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion ac effeithiolrwydd gwaith partneriaid gwella. Mae gan yr awdurdod lleol ddisgwyliadau uchel. Er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid gwella werthuso ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth yn gywir trwy gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Mae swyddogion yn monitro'r wybodaeth mewn adroddiadau ysgrifenedig yn ofalus ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r consortiwm, yn ôl yr angen, i awgrymu gwelliannau. Mae hyn wedi arwain at lefel gynyddol o fanylion defnyddiol yn yr adroddiadau i ysgolion sy'n peri pryder. Fodd bynnag, er gwaethaf adborth yr awdurdod lleol, mae ansawdd adroddiadau partneriaid gwella yn rhy amrywiol o hyd. Yn aml, nid ydynt yn darparu gwybodaeth werthusol ddigon manwl,

yn enwedig o ran addysgu a'i effaith ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr adroddiadau ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r awdurdod lleol gael darlun cyflawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr agweddau pwysig hyn ar waith ysgolion ac UCDau.

Mewn partneriaeth â'r consortiwm, mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i ysgolion rannu arfer effeithiol yn ymwneud â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae ffocws cryf yng nghyfarfodydd tymhorol yr awdurdod lleol i benaethiaid ar ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o addysgeg ac asesu i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm.

**Enghraifft o rannu arfer effeithiol ag ysgolion**

Mewn cyfarfod tymhorol yr awdurdod lleol i benaethiaid, rhannodd penaethiaid cynradd o wyth ysgol a oedd yn rhan o brosiect cydweithredol, a hwyluswyd gan Gonsortiwm Canolbarth y De, eu profiadau o ran cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru gydag uwch arweinwyr eraill. Creodd y digwyddiad 'marchnad' bywiog hwn fforwm agored ar gyfer trafodaeth a chefnogaeth werthfawr, wrth i benaethiaid a swyddogion yr awdurdod lleol gynnal deialog broffesiynol ag athrawon a disgyblion yr ysgolion a oedd yn rhan o'r prosiect.

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau rhwydweithio hirsefydledig rhwng ei ysgolion. Mae hyn yn galluogi ysgolion ac UCDau i gydweithio a gweithio'n effeithlon ar feysydd cyffredin ar gyfer gwella a manteisio ar gymorth pwnc arbenigol gan y consortiwm rhanbarthol. Er enghraifft, mae ysgolion yng nghlwstwr Aberdâr yn cydweithio'n agos â'i gilydd i wella addysgu a dysgu mewn mathemateg ar draws y cyfnodau oed. Mewn llawer o achosion, mae dysgu proffesiynol i ysgolion sy'n peri pryder wedi'i dargedu'n briodol i ddatblygu eu gwaith mewn meysydd penodol, fel gwella medrau ysgrifennu disgyblion, ar sail nodi anghenion yn ofalus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw cymorth dysgu proffesiynol wedi'i deilwra'n ddigon penodol bob tro i anghenion ysgolion eraill. Mae hyn yn golygu bod effaith y cymorth hwn yn rhy amrywiol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu arweinyddiaeth yn ei ysgolion a'i UCDau ac yn rhoi ffocws cryf ar hyn yn ei waith â Chonsortiwm Canolbarth y De. O ganlyniad, mae arweinwyr newydd a phrofiadol mewn ysgolion ac UCDau yn elwa ar ystod o gyfleoedd i wella eu medrau. Un agwedd arbennig o werthfawr ar gymorth yr awdurdod lleol ar gyfer arweinyddiaeth yw'r rhaglen mae'n ei chynnig i ddarpar arweinwyr. Mae'r ddarpariaeth hon yn nodedig ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, mae wedi'i theilwra'n effeithiol iawn i anghenion penodol ysgolion ac UCDau Rhondda Cynon Taf ac, yn ail, mae swyddogion yn defnyddio eu gwybodaeth am ymarferwyr yn yr awdurdod lleol i dargedu darpar gyfranogwyr. Mae'r rhaglen, sy'n cynnwys anogaeth un-i-un, yn uchel ei pharch ymhlith arweinwyr ysgolion ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig i gynllunio olyniaeth ar draws yr awdurdod.

Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn darparu cyfres gyflenwol ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu a chymorth i lywodraethwyr. Yn ystod y pandemig, mynychodd cadeiryddion cyrff llywodraethol gyfarfodydd tymhorol ar-lein â'r cyfarwyddwr addysg a gwasanaethau cynhwysiant ac uwch swyddogion eraill. Roedd nifer dda yn bresennol yn y fforwm newydd hwn ac, ers hynny, mae wedi

parhau i fod yn gyfle defnyddiol i rannu gwybodaeth a chryfhau dealltwriaeth cadeiryddion llywodraethwyr o'u rolau a chyfrifoldebau. Mae darpariaeth, fel yr offeryn hunanwerthuso defnyddiol a gomisiynwyd mewn partneriaeth â'r pum awdurdod lleol ar draws y rhanbarth, yn targedu anghenion llywodraethu penodol mewn ysgolion sy'n peri pryder. Mae gwasanaethau clercio'r awdurdod lleol yn cefnogi datblygiad medrau llywodraethwyr yn dda.

**Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn gweithio â'i gymunedau i gefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus a pha effaith y mae hyn yn ei chael, er enghraifft ar wella presenoldeb, lles ac ymgysylltiad?**

Darparodd yr awdurdod lleol gymorth gweithredol hyblyg ac ymatebol i ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ffocws cryf ar gefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus a'u teuluoedd. Ers hynny, mae swyddogion wedi myfyrio ar sut y cynigiwyd cymorth ganddynt i ddysgwyr bregus yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi parhau ag agweddau ar y ffyrdd o weithio a ddatblygodd yn ystod y pandemig lle y teimlwyd bod gan y rhain fanteision parhaus i ddysgwyr a'u teuluoedd.

Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o anghenion dysgwyr unigol a'u nodweddion bregus. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o'u teuluoedd a'u cyd-destun cymdeithasol ehangach. Er enghraifft, mae gan yr awdurdod lleol y gyfradd farwolaeth uchaf ar gyfer COVID-19 yng Nghymru ac mae swyddogion yn ymwybodol iawn o deuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn benodol a sut mae hyn yn parhau i effeithio ar les dysgwyr.

Mae swyddogion sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n cefnogi lles dysgwyr yn manteisio ar ystod eang o ddata defnyddiol i lywio eu gwaith. Maent yn defnyddio'r data hwn yn dda i olrhain a monitro lles dysgwyr. Er enghraifft, gall swyddogion presenoldeb a lles fanteisio ar ddata presenoldeb byw wrth ymweld ag ysgolion, sy'n eu galluogi i herio a chefnogi ysgolion yn briodol. Yn ogystal, mae swyddogion yn gwerthfawrogi llais dysgwyr bregus a'u teuluoedd, yn gyffredinol, ac yn defnyddio eu safbwyntiau i helpu gwerthuso a llywio datblygiad gwasanaethau.

Mae ffocws cryf yn yr awdurdod lleol ar gefnogi plant a'u teuluoedd cyn iddynt gyrraedd oedran ysgol statudol. Trwy ymagwedd amlasiantaeth â phartneriaid iechyd a phartneriaid eraill, mae pob plentyn yn cael cynnig gwiriad sgrinio datblygiadol pan fyddant tuag 20 mis oed. Ar ôl hynny, caiff rhieni eu cefnogi'n dda i hyrwyddo iaith a lleferydd eu plentyn trwy raglenni un-i-un a rhaglenni cymunedol. Trwy Wasanaeth Teuluoedd Cydnerth yr awdurdod lleol, mae'r rhieni hyn yn cael cynnig ystod o gefnogaeth ddefnyddiol arall i fodloni eu hanghenion hefyd.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod o wasanaethau cymorth gwerthfawr i fodloni anghenion dysgwyr bregus. Er enghraifft, gall pob clwstwr o ysgolion ofyn am ymweliad cartref ar gyfer unrhyw ddysgwyr absennol y maent yn teimlo y maent yn fregus heb fod angen i'w presenoldeb fod islaw trothwy penodol. Mae hyn yn annog ymagwedd ataliol ac yn caniatáu i gymorth gael ei gynnig mewn modd amserol. Fel arfer, mae'r ymagwedd hon yn llwyddiannus o ran cynorthwyo'r dysgwr i ddychwelyd i'r ysgol erbyn dyddiad cytûn.

Yn ogystal ag ymweliadau lles a gwaith ag ysgolion ac UCDau, mae staff yng Ngwasanaeth Presenoldeb a Lles yr awdurdod yn gweithio gyda theuluoedd unigol i annog presenoldeb da. Arweiniodd rhaglen beilot o gymorth dwys i grŵp bach o ddysgwyr â phresenoldeb isel dros ben at y mwyafrif ohonynt yn dychwelyd i'r ysgol yn raddol ac yn mynychu'n rhesymol o reolaidd ac, erbyn hyn, mae'r ymagwedd hon yn cael ei dyblygu â rhagor o grwpiau. Er gwaethaf defnyddio ystod o ymagweddau defnyddiol, mae cyfraddau presenoldeb yn yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn gyfredol ymhell islaw'r rhai yn y blynyddol cyn pandemig COVID-19. Er bod hyn yn gyffredin i raddau amrywiol ledled Cymru, yn ystod tymor yr hydref 2022, roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yn RhCT yn is o lawer na disgyblion eraill.

Yn hanesyddol, mae'r awdurdod lleol wedi cynnig cymorth uniongyrchol i ddysgwyr unigol yr oedd eu hymddygiad yn yr ysgol yn peri pryder. Er mwyn atal yr angen i wahardd dysgwyr, mae swyddogion bellach yn canolbwyntio'n briodol ar feithrin gallu staff ysgolion i feithrin perthynas dda â dysgwyr a defnyddio ymagweddau effeithiol i reoli ymddygiad heriol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ariannu ysgolion targedig i gynnig darpariaeth amgen i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg. Er bod gan ychydig o ysgolion uwchradd gyfraddau isel o waharddiadau, roedd cyfradd gyffredinol y gwaharddiadau mewn ysgolion uwchradd yn nhymor yr hydref 2022 yn debyg i'r gyfradd yn y tair blynedd cyn y pandemig, pan roedd gan yr awdurdod un o'r cyfraddau uchaf o waharddiadau yng Nghymru.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaeth cwnsela annibynnol sy'n gweithio â phlant o 7 oed mewn lleoliadau ysgol a chymunedol. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth hwn yn bodloni anghenion dysgwyr, sy'n manteisio arno'n dda. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu cymorth defnyddiol ychwanegol i blant mewn ysgolion cynradd y mae colled a thrawma wedi effeithio arnynt.

Mae nifer gynyddol o Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd sy'n gweithio mewn ysgolion unigol ac sy'n cael cymorth da gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn cefnogi mwy o ddefnydd o ysgolion fel canolfannau cymunedol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau buddiol i gynorthwyo dysgwyr bregus a'u teuluoedd, fel manteisio ar fasgedi bwyd, arweiniad ariannol, dysgu i oedolion a grwpiau rhieni a phlant bach.

Caiff gwasanaethau ieuenctid eu defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion a chymunedau i gefnogi pobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol. Maent wedi'u targedu'n benodol mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys cymunedau sydd ag ychydig iawn o gyfleusterau lleol i bobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid yn y gwasanaeth YEPS yn cynnig cymorth da i bobl ifanc fregus sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r cymorth hwn yn parhau ar ôl oedran addysg statudol, yn helpu pobl ifanc i gynnal eu cyrchfan ôl-16 a, phan nad yw'r cyrchfan hwn yn llwyddiannus, yn eu helpu i ailymgysylltu â darpariaeth amgen.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu model ysgol rithwir i ddisgyblion sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith gyffredinol y model hwn ar ddeilliannau disgyblion. Mae trefniadau'r awdurdod lleol i fonitro'r ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal, mewn lleoliadau y tu allan i'r sir, yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae adroddiadau monitro unigol yn cynnwys ffocws ar gynnydd, lles a phrofiadau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw

prosesau i gipio safbwyntiau disgyblion, eu dyheadau a'u cynlluniau at y dyfodol wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn bodloni anghenion disgyblion ag ADY?**

Dros gyfnod, er gwaethaf gostyngiad diweddar yn nifer y disgyblion ar y gofrestr AAA/ADY, mae'r galw am gymorth ADY wedi cynyddu. At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol wedi addasu'n dda i'r newidiadau hyn, yn gyffredinol. Erbyn hyn, mae'r ffordd y mae gwasanaethau'n rhyngweithio ag ysgolion ac UCDau yn fwy ymatebol ac mae ffocws cliriach ar feithrin gallu mewn ysgolion ac UCDau, ynghyd â chynnig cyngor, cymorth ac arweiniad, lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r wybodaeth sydd ganddo i addasu a chreu darpariaethau dysgu newydd a chau'r rhai nad oes eu hangen mwyach.

Yn gyffredinol, mae'r broses atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau ADY yr awdurdod lleol yn glir ac yn cael ei deall yn dda gan ysgolion. Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn fiwrocrataidd a rhoi pwysau ychwanegol ar gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei allu i gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ADY newydd, er enghraifft trwy recriwtio swyddogion ychwanegol i gydweithio ag ysgolion a lleoliadau eraill. Mae hyn yn helpu ysgolion a lleoliadau eraill i ddatblygu systemau i sicrhau ansawdd eu gwaith, er enghraifft ar arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau datblygu unigol. Yn ogystal, mae ysgolion mewn sefyllfa well i nodi a deall darpariaeth ddysgu gyffredinol. Cryfhawyd trefniadau rhwng yr awdurdod lleol, darparwyr y blynyddoedd cynnar a phartneriaid hefyd. Cyfoethogwyd systemau a gweithdrefnau i helpu nodi plant a all fod ag angen dysgu ychwanegol cyn gynted ag y bo modd.

Dros gyfnod, sefydlodd yr awdurdod lleol ddosbarthiadau cymorth dysgu mewn tua chwarter yr ysgolion prif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau priodol, yn gyffredinol, i adolygu darpariaeth, gan gynnwys sicrhau y gall disgyblion bontio rhwng cyfnodau yn yr un ysgol, lle bo hynny'n bosibl, gan felly leihau symudiadau i leoliadau newydd. Mae llawer o'r dosbarthiadau cymorth dysgu yn yr ysgolion cynradd. Mae ychydig yn llai na hanner yr holl ddosbarthiadau i ddisgyblion ag awtistiaeth ac mae ychydig dros draean ohonynt i ddisgyblion ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, nid yw'r term 'anghenion cymhleth' yn cael ei ddeall yn ddigon da bob tro, ac mae'n bosibl i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a galluoedd gwahanol gael eu rhoi yn y dosbarthiadau hyn.

I fynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â gwaharddiadau o'r ysgol, mae'r awdurdod lleol wedi cynnig cymorth ariannol i ysgolion i ddatblygu darpariaeth i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Yn ogystal â chynnig darpariaeth 'yn yr ysgol', mae ysgolion wedi sicrhau darpariaeth i ddisgyblion ag ystod o ddarparwyr allanol, er enghraifft i ddarparu lleoliadau profiad gwaith ar gyfer ychydig o ddisgyblion. Mae ysgolion yn adrodd i grŵp llywodraethu'r awdurdod lleol, ond mae amlder ac ansawdd yr adroddiadau gan ysgolion yn rhy amrywiol. O ganlyniad, ni all yr awdurdod lleol werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar ddisgyblion yn llawn. O ganlyniad, nid yw'n amlwg a yw'r ymagwedd yn cynnig gwerth am arian.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol iawn i staff ysgolion. Mae'r rhain yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth cydweithwyr mewn perthynas ag ystod o faterion, gan gynnwys, er enghraifft, mapio darpariaeth, cynhwysiant ar gyfer lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a deddfwriaeth sy'n berthnasol i ADY. Er y cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar y cyfleoedd hyn, dim ond megis dechrau datblygu y mae trefniadau i ystyried effaith y rhain yn y tymor hwy.

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i fanteision a risgiau addysgol ei gynigion ad-drefnu ysgolion?**

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni cyfres o brosiectau ad-drefnu ysgolion yn llwyddiannus fel rhan o fand cyntaf y rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif. Mae swyddogion yn cydnabod blaenoriaethau ad-drefnu ysgolion yn dda. Maent yn defnyddio ystod dda o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys arolygon cyflwr adeiladau a thystiolaeth ymchwil, ac maent yn dadansoddi ystod o ddata'n fanwl i helpu llywio eu penderfyniadau strategol. Mae cynlluniau ad-drefnu ysgolion yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r awdurdod yn cyfathrebu'n glir â rhanddeiliaid amrywiol ynghylch cyflwyno'r rhaglen ad-drefnu ysgolion, ynghyd â sut mae'n blaenoriaethu atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw brys. Mae'n mynd i'r afael â diffygion yn y stoc adeiladau ysgol, gan roi pwyslais addas ar iechyd, diogelwch a pharhad busnes. Trwy fuddsoddi mewn ysgolion newydd a phrosiectau adnewyddu, mae safon gyffredinol adeiladau ysgol yn yr awdurdod wedi gwella dros gyfnod. Mae'r awdurdod yn parhau â'i waith gwella ac wedi cynyddu buddsoddiad arfaethedig i dros £270 miliwn.

Mae CSCA 2022-2032 yr awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i ddatblygu darpariaeth ar gyfer Cymraeg mewn addysg ar draws ei ddarparwyr a bod yn fwy rhagweithiol wrth gynllunio lleoedd ysgol i fodloni a sbarduno'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu dealltwriaeth well o ba leoliadau y mae angen cymorth arnynt i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n cynyddu nifer y lleoliadau addysg meithrin cyfrwng Cymraeg yn raddol trwy gyfuniad o ddosbarthiadau mewn ysgolion a gynhelir ac ychydig o leoliadau nas cynhelir. Mae swyddogion yn gwerthfawrogi mewnbwn rhanddeiliaid, fel Mudiad Meithrin a sefydliadau eraill, i helpu sefydlu trefniadau cofleidiol wrth gynllunio ysgolion newydd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio i sefydlu darpariaeth benodedig ar gyfer trochi hwyr i gynorthwyo disgyblion i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ar bwyntiau mynediad gwahanol, a chynlluniau i wella darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r awdurdod hefyd yn cydnabod yn briodol yr angen i gynyddu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am gymorth arbenigol i ddisgyblion. Bydd agor dosbarthiadau cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Gartholwg ac ysgol newydd Ysgol Rhydyfelin yn cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion ag ADY yn ardal Pontypridd. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth gyfredol ar gyfer darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg amser llawn i ddisgyblion ag ADY yn bodloni'r galw ar draws yr awdurdod cyfan.

Mae'r awdurdod wedi ad-drefnu darpariaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn briodol er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar ystod ehangach o gyrsiau academaidd a

galwedigaethol, ynghyd ag ystod o gyfleusterau o ansawdd uchel i gefnogi eu hastudiaethau. Mae cynlluniau ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Saesneg yn ardal Pontypridd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae’r awdurdod lleol yn cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg i gryfhau’r arlwy academaidd a galwedigaethol dwyieithog i’r dysgwyr ôl-16 hyn, ni waeth lle y maent wedi’u lleoli.

Mae’r awdurdod lleol yn cynyddu nifer yr ysgolion pob oed lle mae o’r farn mai dyma’r ymagwedd fwyaf priodol. Mae wedi adolygu a gwerthuso ei ddarpariaeth gyfredol ac wedi defnyddio’r wybodaeth hon yn bwrpasol i lywio ei gynlluniau i fodloni anghenion cymunedau lleol. Mae penaethiaid newydd benodedig yr ysgolion hyn yn gweithio ochr yn ochr â’r tîm ad-drefnu am gyfnod estynedig i gynllunio’n strategol a pharatoi i agor yr ysgolion.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinydd y cyngor a’r prif weithredwr uchelgeisiau uchel i blant a phobl ifanc a’u teuluoedd yn Rhondda Cynon Taf ac maent yn cyfleu eu gweledigaeth yn effeithiol. Mae aelodau etholedig, gan gynnwys yr aelod cabinet a chadeirydd y pwyllgor craffu addysg a chynhwysiant, yn cefnogi’r genhadaeth yn llawn, sef “Cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn addysg a gwell lles i bawb”. Mae eu hymrwymiad cryf i ymateb i anghenion eu cymunedau lleol ac, yn benodol, lleihau effaith tlodi, yn cael ei adlewyrchu’n dda yn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun corfforaethol, ‘Gwneud Gwahaniaeth’. Caiff y dyhead uchel ar gyfer addysg ei gipio gan y tair prif flaenoriaeth, sef pobl, lleoedd a ffyniant yn yr addewid ‘Sicrhau bod gan yr awdurdod lleol ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych’. Mae’r cynllun corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn dda, gan gynnwys y nodau llesiant cenedlaethol.

At ei gilydd, mae gan aelodau etholedig ddealltwriaeth dda o waith y gyfarwyddiaeth addysg ac maent yn gweithio’n fwriadus â swyddogion. Mae adroddiadau defnyddiol yn eu galluogi i ddeall y prif faterion yn glir, er enghraifft yn ymwneud â chynigion ad-drefnu ysgolion, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae aelodau etholedig hefyd yn dangos eu hymrwymiad i flaenoriaethau’r gyfarwyddiaeth trwy ddyrannu adnoddau’n feddylgar.

Cyn yr etholiad ym mis Mai 2022, roedd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn gyfrifol am graffu ar yr holl wasanaethau i’r cyhoedd sy’n gweithio â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau plant. Mae’r Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant newydd sefydledig yn elwa ar gylch gwaith llai, sydd â ffocws craff erbyn hyn ar addysg a chynhwysiant. Gan fod llawer o aelodau’r pwyllgor yn aelodau newydd, mae’r cadeirydd wedi cydnabod yn ddoeth fod angen meithrin gallu’r grŵp. Mae wedi gwneud hyn trwy hwyluso cyfraniadau defnyddiol gan ystod dra ystyriol o swyddogion a phenaethiaid, gan sicrhau bod yr agenda yn cyd-fynd yn well â rhaglen waith y cabinet. Ar y cyfan, mae aelodau’r pwyllgor yn herio’r wybodaeth a gyflwynir yn briodol ac yn adeiladol ac yn dechrau rhoi ystyriaeth addas i benderfyniadau a wneir gan y cabinet.

Mae’r cyfarwyddwr yn rhannu ei gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer addysg a chynhwysiant yn llwyddiannus. Mae ei hymrwymiad hi a’i huwch dîm clos i blant a phobl ifanc Rhondda Cynon Taf yn amlwg iawn, ynghyd â’u phenderfyniad i gyflawni’n effeithiol ac yn gyflym. Mae swyddogion ar bob lefel a phartneriaid eraill,

yn enwedig ysgolion ac UCDau, yn teimlo y cânt eu cefnogi a’u herio i fodloni’r disgwyliadau uchel hyn. Ers iddi ymgymryd â’r swydd, mae’r cyfarwyddwr wedi adolygu strwythurau ac ail-lunio cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd yn unol â’r blaenoriaethau allweddol. Mae hyn wedi ychwanegu gallu ac wedi miniogi’r ffocws ar agweddau pwysig, fel presenoldeb a lles. Ar draws y gyfarwyddiaeth, mae rolau a chyfrifoldebau swyddogion ar bob lefel yn dra ystyriol, yn briodol ac yn gytbwys. Mae swyddogion yn cydweithio â’i gilydd yn dda ar flaenoriaethau trawsbynciol, fel datblygu gweithlu addysg tra medrus ac arweinyddiaeth ragorol ar bob lefel

Mae uwch swyddogion yn dra gwybodus am yr agweddau ar y gwaith y maent yn eu harwain. Maent yn ystyried yn ofalus y ffordd orau i fodloni anghenion lleol a chymunedol, yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol. Caiff eu penderfyniadau eu tanategu gan y gallu i fanteisio ar system data a gwybodaeth gynhwysfawr sy’n eu galluogi i fonitro perfformiad ysgolion, ymateb yn gyflym i faterion sy’n dod i’r amlwg a chynnig ymyrraeth amserol.

Yn ystod y pandemig, datblygodd yr awdurdod lleol ddangosfwrdd digidol, sy’n ei alluogi i fanteisio ar lawer o ddata ‘byw’ trwy systemau integredig. Mae’r gyfres hon o ddata yn darparu modd i swyddogion nodi materion sy’n dod i’r amlwg yn gyflym a chynllunio camau gweithredu priodol ar gyfer y tymor canolig a’r tymor hwy. Mae’r wybodaeth hon yn atgyfnerthu gwybodaeth dda iawn swyddogion am gymunedau lleol. Mae’r cyfuniad hwn o sylfeini gwybodaeth wedi cefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer buddsoddiad sylweddol yr awdurdod trwy’r gronfa Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae hefyd yn llywio ei waith wrth fynd i’r afael ag agweddau penodol, fel blaenoriaeth y gyfarwyddiaeth i wella lles dysgwyr a’r gweithlu.

Pan nad yw swyddogion yr awdurdod lleol wedi cael gwybodaeth ddigonol neu ddigon manwl gan y consortiwm rhanbarthol, maent wedi herio ansawdd adroddiadau’n gadarn ac wedi amlinellu eu gofynion penodol, gan ailedrych ar y trefniadau cytûn â’r gwasanaeth gwella ysgolion. O ganlyniad i ymyrraeth a disgwyliadau uchel y cyfarwyddwr, mae ansawdd adroddiadau’n dechrau gwella.

Mae gwaith y gyfarwyddiaeth wedi sicrhau bod deilliannau i ddysgwyr yn Rhondda Cynon Taf, o ran safonau a lles, yn gyffredinol gadarn. Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae’r awdurdod lleol wedi nodi bod presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth, fel y mae’n genedlaethol. Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi adnewyddu cynlluniau i fynd i’r afael â phresenoldeb gwael. Erbyn hyn, mae’r rhain yn cynnwys arferion arloesol a sefydlwyd yn wreiddiol yn ystod y pandemig. Mae swyddogion yn targedu strategaethau defnyddiol ar gyfer y rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf, fel defnyddio swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i weithio’n agos â phobl ifanc fregus a’u teuluoedd.

Mae’r awdurdod lleol wedi nodi camau gweithredu sy’n gyffredinol addas i wella darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg trwy ei CSCA. Yn benodol, mae’n dechrau ystyried sut i wella gallu dysgwyr sydd eisiau cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i fanteisio ar drochi hwyr a galluogi cymorth gwell i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Trwy ei gynlluniau ad-drefnu ysgolion, mae’r awdurdod lleol hefyd yn cynyddu’r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau’r blynyddoedd cynnar ac ysgolion a gynhelir. Nid yw gwaith i wella darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi meithrin perthnasoedd gwaith cryf sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Mae cynlluniau strategol wedi'u halinio'n dda ac mae uwch swyddogion yn deall yn glir y modd y mae pum blaenoriaeth y Cynllun Strategol Addysg yn cefnogi cyflawni'r amcanion yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae'r gyfarwyddiaeth addysg wedi amlinellu fframwaith defnyddiol ar gyfer Hunanwerthuso, Monitro ac Adolygu, sy'n cyd-fynd â'r broses gorfforaethol ac sydd wedi'i grynhoi'n dda mewn map gweledol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn gwerthuso ei gwaith yn rheolaidd gan ddefnyddio'r elfennau yn y fframwaith. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'n dda agweddau ar ei waith a oedd yn arbennig o effeithiol yn ystod y pandemig ac wedi defnyddio'r rhain i ffurfio gweithgarwch cyfredol yn fuddiol. Er gwaethaf yr ymrwymiad clir i hunanadolygu, mae ansawdd gwerthuso a chynllunio gwelliant yn amrywio ar draws y gyfarwyddiaeth. Mewn rhai achosion, mae hunanwerthuso'n canolbwyntio ar gwblhau camau gweithredu, yn hytrach nag effaith y gwaith hwn. O ganlyniad, mae'n anodd i swyddogion amlygu'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ddigon clir neu fanwl yn yr agweddau yma o'u gwaith.

Mae swyddogion yn hwyluso cyfleoedd buddiol i ystod o bartneriaid, gan gynnwys penaethiaid, rannu eu safbwyntiau a llywio cyfeiriad strategol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, ni chaiff safbwyntiau rhanddeiliaid eraill eu casglu yr un mor llwyddiannus bob tro, er enghraifft cyfraniad plant a phobl ifanc at brosesau penderfynu.

Mae llawer o flaenoriaethau'n croesi ffiniau meysydd gwasanaeth, fel y gwaith i leihau effaith tlodi a hyrwyddo tegwch mewn addysg. Yn gyffredinol, mae swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hagwedd benodol ar y gwaith hwn yn dda. Mae'r diffyg cydlyniad ar draws yr holl gynlluniau yn golygu ei bod yn anodd gwerthuso cyfraniadau unigol meysydd gwasanaeth a phenderfynu pa rai sy'n cael yr effaith fwyaf ar gydflaenoriaethau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer unigolion yn gadarn. Mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r her y mae'r broses yn eu cynnig, gan gynnwys y cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol y gallant fanteisio arnynt. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio'r rhaglen darpar arweinwyr yn arbennig o dda dros gyfnod i ategu cynllunio olyniaeth a meithrin talent yn ei weithlu.

Ar draws yr awdurdod lleol, mae diogelu plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel. Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant diogelu cryf lle mae diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar bawb. Caiff hyn ei adlewyrchu'n dda ym mholisïau'r awdurdod lleol a'i arfer o ddydd i ddydd. Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn darparu fframwaith cryf ar gyfer pob maes gwasanaeth ac yn tanategu ei arferion diogelu. Mae'r holl gyflogeion ac aelodau etholedig yn cael hyfforddiant diogelu ar ôl eu penodi ac yn rheolaidd.

Mae gan arweinydd y cyngor a'r prif weithredwr ddealltwriaeth gadarn o gyfrifoldebau diogelu'r awdurdod lleol. Mae'r prif weithredwr yn cadeirio'r bwrdd diogelu corfforaethol. Mae'r grŵp hwn yn cynnig llywodraethu cryf ac effeithiol. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill hefyd fel rhan o fwrdd diogelu Cwm Taf Morgannwg, er enghraifft i rannu arfer dda. Mae cynrychiolaeth addysg gref ar y bwrdd hwn.

Mae gan yr awdurdod lleol broses sicrhau ansawdd gadarn ar gyfer diogelu corfforaethol. Er enghraifft, mae pob maes gwasanaeth yn asesu ansawdd ei arferion diogelu fel rhan o'i brosesau hunanwerthuso blynyddol.

Mae swyddogion diogelu yn rhoi lefel uchel o gymorth i ysgolion a darparwyr eraill, gan gynnwys hyfforddiant buddiol a diweddariadau ysgrifenedig rheolaidd. Mae arweinwyr ysgolion ac UCDau yn gwerthfawrogi'r cyngor amserol a gwerthfawr sydd ar gael iddynt ac mae'r hwb diogelu amlasiantaeth (MASH) hefyd yn cynnig cymorth effeithiol i ysgolion ac UCDau.

Mae'r awdurdod lleol yn casglu data gan ysgolion ac UCDau ar fwlio ac ymyrraeth gorfforol yn rheolaidd. Mae'n ei ddadansoddi'n drylwyr i ganfod tueddiadau. Mae swyddogion yn deall yr angen i herio ysgolion ac UCDau yn fwy effeithiol i sicrhau bod mwy o gysondeb yn y modd maent yn cofnodi ac yn adrodd ar bob honiad o fwlio.

Caiff cyllid ar gyfer addysg ei flaenoriaethu gan yr awdurdod. Ar gyfer 2022-2023, cynyddodd yr awdurdod ei wariant fesul disgybl ar gyfer gwariant ysgolion wedi'i gyllidebu 8.4%, sef cynnydd canrannol uwch na phobl cyngor arall yng Nghymru. Caiff blaenoriaethu cyllid addysg ei adlewyrchu yn y buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn ystadau ysgolion hefyd.

Mae gan yr awdurdod hanes da o reoli o fewn ei gyllideb addysg ac nid oedd gan unrhyw ysgolion ddiffyg erbyn diwedd 2021-2022. Lle'r oedd gan ysgolion ddiffyg cyn y pandemig, cymhwysodd yr awdurdod ei gynllun cyllido ysgolion a'i brotocol diffyg yn effeithiol ac roedd diffygion cyffredinol ysgolion yn gostwng.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth gadarn o faterion yn ymwneud â'r gyllideb addysg a sefyllfa ariannol ysgolion unigol. Mae'n defnyddio data ariannol a data arall yn dda i lywio cynllunio ariannol yn y tymor canolig. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio data ariannol cymharol ag awdurdod lleol eraill fel mater o drefn i lywio'r gwaith o gynllunio a monitro'r gyllideb.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth cryf i reolaeth a chynllunio ariannol ysgolion ac mae ysgolion yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a roddir. Mae'r awdurdod yn cynnig ystod eang o wasanaethau i ysgolion trwy gytundebau lefel gwasanaeth ac mae llawer o ysgolion yn manteisio ar y gwasanaethau hyn.

## Atodiad 1: ASTUDIAETH ACHOS O ARFER ARLOESOL NEU EFFEITHIOL

**Enw'r darparwr:** Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

**Awdurdod lleol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Unigolyn cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i gael mwy o wybodaeth:**
Catrin Edwards, Pennaeth Trawsffurfio Gwasanaethau a Systemau Data

**Nifer ac ystod oedran y dysgwyr:**
Ddim yn berthnasol

**Gwefan:** https://www.rctcbc.gov.uk

**Dyddiad arolygiad Estyn:** Ionawr 2023

**Maes yr arfer a nodwyd yn ystod arolygiad:**
Defnyddio data ar draws yr awdurdod lleol i lywio cynllunio, penderfyniadau a chefnogaeth i ysgolion

**Maes arolygu:**
MA1, MA2

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer effeithiol neu arloesol**

Bu datblygu systemau rheoli gwybodaeth (SRhG) a defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol yn ganolog i strategaeth gwella'r awdurdod lleol. Yn yr arolygiad diwethaf yn 2012, nododd Estyn fod angen i'r gyfarwyddiaeth 'wella arfarniadau a dadansoddiadau data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau i ysgogi gwelliannau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr'.

I gefnogi hyn, canolbwyntiodd yr awdurdod lleol yn ofalus ar:

- sefydlu SRhG canolog sy'n hwyluso mynediad rhwydd at setiau data helaeth sy'n cael eu dadansoddi'n rheolaidd at ddibenion hunanwerthuso a sbarduno gwelliant ar draws gwasanaethau a lleoliadau addysgol yr awdurdod lleol;
- datblygu setiau data byw, lle bo hynny'n bosibl, sy'n cael eu dadansoddi mewn modd amserol i nodi tanberfformiad yn effeithiol a llywio ymyriadau targedig a deilliannau gwell; a
- defnyddio data fel offeryn i gryfhau gwaith trawsgyfarwyddiaeth, cynllunio strategol, partneriaethau'r awdurdod lleol ac ysgolion.

**Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgaredd**

Integreiddiodd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant dair system rheoli gwybodaeth a nifer o ffrydiau data i greu un system ddata wedi'i symleiddio. Mae hyn wedi darparu sylfaen gadarn i ddatblygu setiau data, dangosfyrddau a chapasiti adrodd mwyfwy soffistigedig.

Mae'r system integredig hon yn galluogi swyddogion i fanteisio'n ddi-oed ar ystod eang o ddata a gwybodaeth yn ymwneud ag ysgolion a gwasanaethau. Mae hyn, ynghyd â phrosesau monitro a gwerthuso clir, yn galluogi'r awdurdod lleol i nodi meysydd i'w gwella ac ymateb yn gyflym.

Er mwyn sicrhau'r gwelliant hwn, mae'r awdurdod lleol wedi:

- adolygu a gwerthuso systemau a ffynonellau data yn strategol;
- sicrhau y cadwyd swyddogaethau data mewn un Tîm Data tra arbenigol;
- recriwtio graddedigion a phrentisiaid o ansawdd uchel trwy gynllun arobryn y Cyngor a buddsoddi yn eu dilyniant gyrfa a'u dysgu;
- meithrin gallu mewnol, gan leihau unrhyw ddibyniaeth ar asiantaethau ac arbenigwyr allanol fel bod gwasanaethau'n parhau'n gost effeithiol ac yn effeithlon;
- cefnogi ysgolion â'u SRhG, gan gynnwys cysoni systemau'n ddyddiol a chynnal cywirdeb data craidd;
- comisiynu un system gwybodaeth disgyblion i'r awdurdod lleol, wedi'i chefnogi a'i datblygu gan y Tîm Gwybodaeth Data Addysg dynodedig;
- sicrhau llif effeithiol o wybodaeth a data gan ysgolion drwy'r system ganolog ac i'r offerynnau adrodd priodol;
- datblygu adroddiadau awtomataidd i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i gefnogi swyddogion i nodi patrymau cronolegol a daearyddol mewn setiau data;
- gwella cyfathrebiadau mwy effeithlon a dulliau casglu data syml.

**Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr?**

Mae argaeledd data byw gan 115 o ysgolion, ar draws hyd at 30 o wasanaethau ac â thros 500 o ddefnyddwyr yn galluogi swyddogion i fanteisio ar ystod eang o wybodaeth berthnasol a chyfredol. Erbyn hyn, mae gan y Gyfarwyddiaeth Addysg drosolygon byw o ystod eang o ddata rhyngweithiol.

Mae'r wybodaeth a'r data hyn yn ganolog i'r holl gynllunio strategol ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg, gan gynnwys ad-drefnu ysgolion, hunanwerthuso gwasanaethau, cynllunio strategol a rheoli perfformiad. Mae adroddiadau i gyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd craffu wedi'u llywio'n dda trwy allu manteisio ar y setiau data byw hyn.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys tueddiadau demograffig, data ar enedigaethau a datblygiadau tai i ystyried nifer y lleoedd mewn ysgolion a derbyniadau ysgolion yn ofalus.

Roedd gallu manteisio ar ddata perthnasol yn hollbwysig wrth gefnogi'r ymateb i Covid. Cafodd dysgwyr bregus, yn enwedig lle'r oedd problemau cysylltiedig, eu targedu'n dda ar gyfer darpariaeth ac ymweliadau lles a chefnogaeth arall. Sicrhaodd gwaith â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant fod gan ysgolion ddata cyfredol ar ddysgwyr bregus yn eu hysgolion yn ôl categorïau bregusrwydd gwahanol.

Gan fod staff yn gweithio mewn modd hybrid erbyn hyn, mae darparu data gweithredol i ddyfais addas wedi dod yn hanfodol. Erbyn hyn, gall staff presenoldeb a lles fanteisio ar ddata ar absenoldebau yn uniongyrchol ar eu ffonau symudol a defnyddio hyn i herio ysgolion mewn modd amserol.

**Sut ydych chi wedi mynd ati i rannu eich arfer dda?**

Galluogodd cymorth i'r timau Profi, Olrhain a Diogelu yn ystod y pandemig i ddata cyswllt strwythuredig gael ei ddarparu'n uniongyrchol o systemau ysgolion mewn fformat addas i'w lanlwytho'n uniongyrchol i systemau iechyd. Rhannwyd y broses hon â'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae RhCT yn gweithredu'n rheolaidd fel cyswllt a man cyfeirio ar gyfer gwybodaeth a chyngor technegol a strategol penodol. Mae'r tîm yn cyfrannu'n weithredol at grwpiau defnyddwyr yng Nghymru trwy dechnoleg MS Teams ac, ers yr adferiad Covid, trwy arddangosiadau wyneb-yn-wyneb i awdurdodau lleol eraill.

## Atodiad 2: ASTUDIAETH ACHOS O ARFER ARLOESOL NEU EFFEITHIOL

**Enw'r darparwr:** Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

**Awdurdod Lleol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Unigolyn cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn i gael mwy o wybodaeth:**
Gaynor Davies, Gaynor.Davies@rctcbc.gov.uk.

**Gwefan:** rctcbc.gov.uk

**Dyddiad arolygiad Estyn:** Ionawr 2023

**Maes yr arfer a nodwyd yn ystod arolygiad:**

Datblygu arweinwyr y dyfodol ym myd addysgu trwy arlwy dysgu proffesiynol cryf a chynllunio olyniaeth effeithiol.

**Maes arolygu:**
MA3

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer effeithiol neu arloesol**

Mae'r awdurdod lleol yn blaenoriaethu datblygiad proffesiynol staff yr awdurdod lleol ac ysgolion yn dda. Mae wedi ymrwymo i 'dyfu ei arweinwyr ei hun' i gefnogi cynllunio olyniaeth a gwella. Er mwyn ymateb i heriau o ran recriwtio penaethiaid ysgol ac uwch arweinwyr o ansawdd uchel, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu Rhaglen Darpar Arweinwyr hynod effeithiol. Modelwyd hyn ar raglen bresennol i uwch arweinwyr ar gyfer staff y cyngor, a oedd wedi'i llywio gan ymchwil ac a oedd yn canolbwyntio'n glir ar arweinyddiaeth ymarferol. Mae'r rhaglen hon wedi helpu i sbarduno datblygiad personol a phroffesiynol a datblygu arweinwyr y dyfodol ar gyfer ysgolion yn RhCT.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn gwneud defnydd cryf o raglenni prentisiaeth a graddedigion i ddatblygu gweithlu tra medrus. Er enghraifft, mae'r Cynllun Graddedigion yn cynnig lleoliad gwaith penodedig am ddwy flynedd a chyfleoedd strwythuredig i ddatblygu medrau rheoli mewn sefydliad dynamig ac amrywiol, ynghyd â Chymhwyster Rheoli Prosiectau Lefel 4.

**Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgaredd**

Mae diwylliant cryf yn y Cyngor o fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol ei staff. Mae cynllunio ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Strategol Addysg.

Mae'r ALl yn cefnogi datblygiad darparwyr arweinwyr ysgolion yn dda. Maent yn sicrhau y caiff ystod eang o gyfleoedd eu cynnig i arweinwyr canol ac uwch arweinwyr ddatblygu a gwella eu medrau arweinyddiaeth. Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr yr awdurdod lleol yn gryfder penodol. Caiff y rhaglenni hyn eu

cynllunio a'u gwerthuso'n effeithiol i fodloni disgwyliadau ac anghenion darpar arweinwyr, a chânt eu hesblygu a'u haddasu i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben.

Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr RhCT yn unigryw o ran ei dyluniad a'r modd y caiff ei chyflwyno. Caiff y rhaglen ei chynllunio er mwyn ymateb i anghenion penodol y garfan yn ogystal a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Bu'n arbennig o lwyddiannus o ran hyrwyddo twf personol a phroffesiynol y cyfranogwyr. Bu'n gymorth effeithiol, nid yn unig i arweinwyr newydd benodedig, ond hefyd o ran cynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ym mhob ysgol yn RhCT dros y degawd diwethaf.

Mae diwylliant cryf o nodi a chefnogi potensial mewn cyflogeion ac mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi'n gryf mewn datblygu ei weithlu. Er enghraifft, gall staff yr awdurdod lleol sy'n dyheu am swyddi rheoli fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu strwythuredig, gan gynnwys ystod eang o raglenni arweinyddiaeth.

Er 2005, mae llawer o staff addysg wedi cymryd rhan mewn ystod o brosiectau trawsgyfarwyddiaeth, gan gynnwys datblygu medrau annog a mentora a chymryd rhan mewn prosiectau ymchwil.

Mae'r ystod eang hon o strategaethau wedi cefnogi cynllunio olyniaeth yn yr awdurdod lleol yn dda. Mae llawer o gyn brentisiaid, graddedigion a hyfforddeion yn mynd ymlaen i gael swyddi parhaol gan gynnwys rolau arweiniol yn y Cyngor.

**Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr?**

Mae arweinyddiaeth ar draws y gyfarwyddiaeth yn gryf ac yn effeithiol. Mae'r ystod eang o hyfforddiant wedi cefnogi arweinwyr ar bob lefel i ddatblygu ystod o fedrau. Maent yn arwain trwy esiampl yn dda ac wedi sicrhau gwelliannau effeithiol ar draws y gyfarwyddiaeth. Er enghraifft, mae'r tîm gwella ysgolion wedi cryfhau'r ffordd y mae'n herio ac yn cefnogi'r consortiwm rhanbarthol i wella cymorth i'w hysgolion.

Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr ysgolion yr awdurdod lleol yn uchel ei pharch ymhlith arweinwyr ysgolion ac wedi cefnogi twf a datblygiad y cyfranogwyr hyn yn dda. Mae'r holl staff a gymerodd ran yn y rhaglen ddiweddar wedi cael swyddi arweinyddiaeth.

Dolenni defnyddiol
[Cynllun Prentisiaeth a Rhaglen Graddedigion | RhCT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)]
[RCT EET - Step In The Right Direction - YouTube]

Professional learning case study JH TB edit

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol y mae Estyn yn ei gadw
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgol, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2023